

Cyswllt Cymunedol



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Chwefror 2018



Croeso i rifyn mis Chwefror fy nghylchlythyr, Cyswllt Cymunedol, sy'n tynnu sylw at y prif feysydd gwaith rydw i wedi bod yn gysylltiedig â nhw dros y misoedd diwethaf. Yn gyntaf, hoffwn ddymunio blwyddyn newydd hapus, iach a llewyrchus i bawb, ac rwy'n gobeithio eich bod i gyd wedi cael Nadolig heddychlon a llawen. Mae'n anodd credu ein bod ni yn 2018, ond rwy'n edrych ymlaen at barhau i gynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona a sicrhau bod pryderon lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu deall gan yr heddlu, partneriaid a rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn hon.

Rhannwch y cylchlythyr hwn gyda'ch teulu, eich ffrindiau a'ch chydweithwyr. Gallwch danysgrifio i dderbyn copïau chwarterol drwy e-bostio fy swyddfa ar y manylion a roddir ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Diolch

Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Cefnogi Dioddefwyr Llamau



Ers Gorffennaf 2015 mae Llamau wedi eu comisiynu i ddarparu gwasanaeth i gefnogi pobl ifanc coll. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaethau ôl-drafod a chyfyngu annibynnol o safon uchel ar gyfer plant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll o fewn Dyfed Powys. Mae hyn yn sicrhau bod cefnogaeth uniongyrchol yn cael ei ddarparu i'r plentyn neu'r person ifanc gan gynnig y cyfle i siarad am eu sefyllfa, canfod pam yr aethant ar goll, gweithio gyda nhw a'u teuluoedd neu eu rhwydweithiau cefnogi i fynd i'r afael â phroblemau, darparu unrhyw gefnogaeth diogelu angenrheidiol a helpu eu hatal rhag mynd ar goll yn y dyfodol.

Yn ddiweddar derbyniodd fy Mwrdd Comisiynu, sef panel amlasiantaethol o bartneriaid allweddol a rhanddeiliaid sy'n cynorthwyo, cyngori ac yn archwilio fy swyddogaeth comisiynu, adroddiad gwerthuso. Roedd yr adroddiad yn dangos data ystadegol manwl a chanlyniadau gwasanaeth, ynghyd â chost darparu'r gwasanaeth o gymharu â chost archwilio adroddiadau o unigolion coll. Ar sail y data perfformiad a chost effeithlonrwydd hwn, rwyf wedi ymestyn y contract gwasanaeth presennol gyda

Llamau am gyfnod pellach o 24 mis, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg yn cael eu cefnogi a'u diogelu'n briodol o fewn model cost effeithlon.

Ymgyrch Rhuban Gwyn

Rwyf yn falch o fod yn cefnogi'r ymgyrch i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod. Mae'r Ymgyrch Rhuban Gwyn yn cael ei arwain gan ddynion sy'n fodlon gwneud safiad yn erbyn trais yn erbyn menywod a merched, a bod yn fodelau rôl cadarnhaol i ddynion eraill yn eu cymuned.

Yr amcan yw cyfathrebu'n uniongyrchol gyda dynion, fel eu bod yn deall maint y broblem, a'u hannog i gymryd llw'r Rhuban Gwyn: "i beidio â chyflawni, esgusodi nac aros yn dawel ynghylch trais yn erbyn menywod".



Bob blwyddyn mae gwasanaethau trais domestig a phartneriaid yn cynnal digwyddiadau i godi proffil yr ymgyrch a Diwrnod Rhuban Gwyn ei hun, sy'n digwydd ar Dachwedd 25. Fodd bynnag, gyda mwy na 2 fenyw'n cael eu lladd bob wythnos yn y DU o ganlyniad i drais a gyflawnwyd gan ddynion, mae gan yr Ymgyrch Rhuban Gwyn neges gref ac y mae'n rhoi'r grym i ddynion ddweud 'dim mwy'.

Ymgyrch yw hon am ddynion yn gwneud safiad i ddweud na fyddant yn cyflawni nac yn esgusodi trais yn erbyn menywod. Y mae hefyd yn rhoi cyfle i ni weithio gyda llawer o asiantaethau i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a thrais domestig yn benodol, a sicrhau bod dioddefwyr troseddau o'r fath yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

I gael mwy o wybodaeth am yr ymgyrch rhuban gwyn, neu i dyngu eich llw i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, ewch at www.whiteribboncampaign.co.uk

Gall unrhyw un sy'n teimlo eu bod yn dioddef trais, neu sy'n gofidio ynghylch ffrind neu aelod o'r teulu, alw'r heddlu ar 101 neu ffonio Byw Heb Ofn ar 0808 80 10 800. I ddsygu mwy am Byw Heb Ofn ewch at www.livefearfree.gov.wales

Os oes unrhyw un yn dioddef trais domestig yn ardal Dyfed-Powys ac yn dymuno cymorth, rydw i wedi comisiynu gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion trosedd o'r enw Goleudy. Gall ein swyddogion sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig gynnig cefnogaeth ddi-dâl a chyfrinachol wedi ei theilwra i anghenion yr unigolyn.

I gael cefnogaeth ddi-dâl a chyfrinachol cysylltwch â Goleudy, gwasanaeth wedi ei gomisiynu ar gyfer dioddefwyr a thystion trosedd. Ffoniwch 0300 123 2996, anfonwch e-bost at goleudy@dyfed-powys.pnn.police.uk neu ewch at www.goleudyvictimandwitnessservice.org.uk. Ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 10am-6pm.

Darparu gwasanaeth ar y cyd

Mae Bwrdd Gweithredol a Grŵp Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru (VAWDASV) yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu strategaeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod ar draws Dyfed Powys.

Mae fy swyddfa i, ynghyd ag arweinwyr strategol o Heddlu Dyfed Powys, yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith hwn. Rhan gyntaf y strategaeth hon yw cyd-gomisiynu darpariaeth gwasanaethau Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig ar gyfer dioddefwyr risg uchel ac unigolion sy'n dioddef trais domestig yn aml.

Bu trafodaethau parhaus am nifer o flynyddoedd ynghylch manteision gwasanaeth wedi ei gyd-gomisiynu ac mae datblygiad y gwaith hwn am y tro cyntaf wedi darparu cyfle gwirioneddol i gomisiynu gwasanaeth rhanbarthol i ymateb i anghenion unigolion a theuluoedd yn yr ardal.

Rydw i, ynghyd â'r pedwar Awdurdod Lleol ar draws Dyfed Powys, wedi ymrwmo i gyllido'r gwasanaeth hanfodol hwn a thrwy gydweithio ar un contract gallwn ddarparu capasiti ychwanegol, gwydnwch o fewn gwasanaethau ac yn fwyaf pwysig, gwasanaethau hygyrch a chyson i'n cymunedau.

Mae'r cyfle i drosglwyddo'r gwasanaeth hwn yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd ar Sell2Wales. Rydym yn anelu at ddyfarnu'r contract hwn yn Chwefror, gyda'r gwasanaeth newydd mewn lle ac yn weithredol erbyn haf 2018.

Cynllun Brysbennu'r Ddalfa

Mae'r cynnig am gynllun brysbennu yn y ddalfa yn fenter sy'n newid diwylliant ac sy'n anelu at fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd troseddu a'r materion iechyd a chymunedol sy'n gysylltiedig â hynny. Mae pobl yn aml yn cael eu hysgogi i gyflawni trosedd o ganlyniad i broblemau sylfaenol yn eu bywydau - gallai'r rhain gynnwys camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, problemau iechyd meddwl a chorfforol, problemau tai neu ddigartrefedd, neu broblemau'n ymwneud ag arian neu berthnasau. Mae hon yn rhaglen amlasiantaethol sy'n anelu at ymdrin ag ymddygiad troseddol ar gam llawer cynharach ar daith troseddu unigolyn. Y mae hefyd yn gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd a'u hygyrchedd i bob unigolyn sy'n ymddangos yn nalfa'r heddlu, gan gynnwys y rhai hynny sy'n mynychu'n wirfoddol. Bydd y Prosiect Braenaru'n addasiad o'r prosiect Braenaru ar gyfer Menywod yn Sir Benfro, lle byddwn yn agor y cynllun i ganiatáu pob troseddwr lefel isel.

Mae bwrdd prosiect wedi ei sefydlu ac mae datblygiadau ar droed i sicrhau bod y cynllun peilot yn barod i'w weithredu erbyn 1af Ebrill 2018. Bydd y cynllun yn cael ei beilota yn Nalfa Hwlfordd i gychwyn.

Craffu

Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

Rhan bwysig o fy rôl yw craffu ar waith Heddlu Dyfed Powys, ac fel rhan o hynny y mae gennyf Banel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys. Mae gwarediad y tu allan i'r llys yn ffordd o ymdrin â throsedd lle nad oes galw am erlyniad mewn llys. Maent yn caniatáu i'r heddlu ymdrin yn gyflym ac yn briodol gyda throseddu lefel isel, sydd yn aml yn droseddau cyntaf, lle nad oes galw am erlyniad mewn llys. Diben y panel yw asesu, craffu a rheoli ansawdd y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys gan yr Heddlu, mewn modd annibynnol. Mae'r panel yn rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion yn ogystal â chyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau ac adnabod anghenion hyfforddi neu ddatblygiadau polisi posibl i'w hystyried gan yr Heddlu ac asiantaethau eraill sy'n cyfrannu.

Gofynnais i'r panel adolygu hap-sampl o warediadau y tu allan i'r llys yn gysylltiedig â throseddau rhywiol pobl ifanc dros gyfnod o wyth mis, gan fod hwn yn faes nad oeddent wedi ei adolygu'n eang yn y gorffennol, a gan fod y broblem o secstio a pheidio trin 'arbrofi' pobl ifanc fel trosedd wedi bod yn destun sylw sylweddol yn y cyfryngau. Hap-samplodd y panel 11 o achosion a chanfod fod 5 achos wedi eu trin yn briodol, 3 yn briodol ond gyda pheth amheuaeth, a 3 yn amhriodol. O ganlyniad, gosodwyd gorchwyl i Heddlu Dyfed Powys adolygu canllawiau ar gyfer gwarediadau ar gyfer troseddau rhywiol pobl ifanc ac ystyried adolygiad pellach o achosion tebyg.

Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r Panel Sicrhau Ansawdd wedi ei sefydlu er mwyn adolygu ansawdd cysylltiad yr Heddlu gyda'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac annibynnol ar ran y cymunedau o fewn ardal Heddlu Dyfed Powys. Mae'r Panel yn ystyried amrediad o feysydd lle ceir cysylltiad â'r Heddlu, gan gynnwys prosesau ymdrin â chwynion, ymdriniaeth yr Heddlu o alwadau 101 a 999, a'r defnydd o rymoedd swyddogion i stopio a chwilio. Rydw i yn ddiweddar wedi ymrwmo i ymestyn y Panel Sicrhau Ansawdd ac rwyf ar hyn o bryd yn edrych am wirfoddolwyr newydd i ymuno â'r tîm!

Pwy all wirfoddoli?

Rhaid i wirfoddolwyr fod dros 18 oed, rhaid iddynt fod yn byw, yn gweithio neu'n astudio o fewn ardal Dyfed-Powys a rhaid eu bod yn annibynnol o'r Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol. Yn ddefnyddol byddai gan ymgeiswyr brofiad blaenorol mewn rôl yn galw am ddadansoddi, adolygu neu ddatblygu gwasanaethau, a gwerthuso perfformiad neu archwilio; byddai'n gallu dangos y gallu i gwestiynu, herio, pwysu a mesur materion, a gwneud dyfarniadau cytbwys, rhesymol a chymesur.

Sut ydw i'n gwirfoddoli?

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â'r Swyddog Cymorth Ymgysylltu, Caryl Bond, ar 01267 226097, drwy e-bost caryl.bond.opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk, neu ewch at wefan y Comisiynydd <http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/work-with-me/volunteer/qualityassurance-panel/>

Ymgysylltu Cymunedol

Prosiect Ieuentid Tanyards



Ar y 9fed o Ionawr, ymwelais â Phrosiect Ieuentid Tanyards yn Noc Penfro a chael y cyfle i gwrdd â staff a phobl ifanc.

Sefydlwyd Prosiect Ieuentid Tanyards yn 2005 i ddarparu

amgylchfyd diogel, croesawgar a chefnogol i blant a phobl ifanc Sir Benfro a'i hardaloedd amgylchynol. Dyfarnwyd cymorthdal o £5,000 i Tanyards o Gronfa Gymunedol y Comisiynydd yn 2016 ac roeddwn yn awyddus i weld sut yr oedd wedi cefnogi'r prosiect. Mae Tanyards wedi creu ffilm i dynnu sylw at effaith negyddol anfwriadol peth ymddygiad gan bobl ifanc mewn cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae pobl ifanc lleol sy'n mynd i'r Prosiect Ieuentid Tanyard wedi bod yn rhan o greu'r ffilm sydd wedi ei arwain gan eu barn nhw ynghylch helpu atal achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol. Bydd y ffilm yn cael ei weld ar draws ardal Heddlu Dyfed Powys a bydd yn cael ei ryddhau'n fuan.

Mae cynnal cysylltiad a chydweithio yn hanfodol wrth sicrhau ein bod yn diogelu ein cymunedau, ac mae Prosiect Ieuentid Tanyards yn chwarae rôl allweddol wrth helpu preswylwyr i deimlo'n ddiogel ac wedi eu cefnogi.

Dewch i adnabod fy nhîm

Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau



Fy enw i yw Heddwyn Thomas a fi yw Cyfarwyddwr Ystadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Rwyf yn gyfrifol am ystâd Heddlu Dyfed Powys ac rwyf ar ganol gweithredu rhaglen ystadau ar gyfer ein tir a'n hadeiladau, gyda'r bwriad o ddarparu ystâd cost effeithlon a pherthnasol o ran gweithrediadau sy'n cefnogi ac yn ategu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r gymuned.

Y prif ffocws dros y ddwy flynedd nesaf fydd:

1. Adnewyddu eiddo fel eu bod unwaith eto'n llwyr effeithiol ar gyfer gweithrediadau;
2. Gwerthu eiddo gwag a diangen;
3. Caffael tir ac adeiladu Dalfa Sir Gaerfyrddin;
4. Cyfuno a chydweithio gydag aelodau a phartneriaid o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
5. a Chytuno ar ddyfodol adeiladau a fydd efallai angen buddsoddiad sylweddol yn y dyfodol.

Rwyf wedi ymrwmo i foderneiddio'r ystâd yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Prif Gwnstabl i archwilio syniadau blaengar sy'n cefnogi anghenion gweithrediadol yr Heddlu ac anghenion ein cymunedau.

Mae ein rhaglen o waith adnewyddu'n parhau ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd clir a ddarparwyd yn ein Cynllun Heddlu a Throsedd, gyda'r gorsafodd canlynol yn cael eu hadnewyddu o fewn y cyfnod tri mis diwethaf:

Llwynhendy, Crosshands, Llandysul, Arberth, Llanymddyfri. Parhaodd mwyafrif y gorsafodd hyn yn gwbl weithredol yn ystod cyfnod y gwaith gan sicrhau'r amhariad lleiaf posibl i'r gwasanaeth ac i ddefnyddwyr.

Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Gwasanaethau a Chynghorau Tref lleol ar gyfleoedd cydweithio posibl. Bydd y rhain yn darparu cyfleoedd am effeithlonrwydd a chydweithio agosach yn y dyfodol. Rwy'n gobeithio gallu adrodd ymhellach yn ein cyfathrebiad nesaf.


Cyfarfodydd Cyhoeddus

Llanelli - 12.12.2017


Wrth bontio'r cysylltiad rhwng cymunedau a phlisma, mae Dafydd Llywelyn yn cynnig y cyfle i aelodau o'r cyhoedd ddod i siarad gydag ef a Phrif Swyddog.

Ar noson y 12fed o Ragfyr, daeth preswylwyr o ar draws Llanelli i fy nghlywed i a'r Dirprwy Prif Gwnstabl yn siarad am blisma yn yr ardal leol. Cafwyd trafodaethau agored a gonest ynghylch materion sy'n achosi pryder yn lleol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac effaith y rhain ar ein cymunedau.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r rheiny a ddaeth draw ar noson mor oer a diflas ym mis Rhagfyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi gwir ddealltwriaeth i uwch reolwyr ynghylch y materion sydd wir yn achosi pryder i breswylwyr lleol. Mae'n bwysig nad ydym yn cymryd ein bod yn deall pa faterion sy'n effeithio ar breswylwyr lleol wrth edrych ar ddata perfformiad neu ystadegau'n unig. Dim ond os ydym yn gweithio'n agos gyda'n cymunedau ac yn gwrandao ar eu barn y gall blisma drwy gydsyniad ddigwydd. Mae gweithio amlasiantaethol yn hanfodol i ddarparu ymateb wedi ei deilwra i ymdrin â phryderon cymunedol. Ond yn sylfaenol, rhaid i'r pryderon hyn gael eu deall yn llwyr gan yr heddlu a'n partneriaid. Mae cynnal cyfarfodydd fel y rhain yn darparu mecanwaith arall i ganiatáu ar gyfer hynny.



Doc Penfro - 09.01.2018



Ar y 9fed o Ionawr, cynhaliais gyfarfod cyhoeddus yng Nghlwb Rygbi'r Harlequins yn Noc Penfro gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Claire Parmenter a'r Uwcharolygydd Ian John yn bresennol. Derbyniais groeso cynnes gan breswylwyr Doc Penfro a chafwyd trafodaethau agored a gonest iawn.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle gwyh i breswylwyr ofyn cwestiwn uniongyrchol i ni ynghylch materion Plisma lleol neu bryderon y mae angen ymdrin â nhw, ac maent yn allweddol wrth bontio'r cysylltiad rhwng cymunedau a'r Heddlu lleol.

Amlygwyd amrywiol faterion lleol gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr adeilad Coronation, materion tai lleol, diffyg cefnogaeth i ddiodefwyr ar gyfer unigolion o fewn y system Cyfiawnder Troseddol a diffyg adnoddau'r Heddlu yn yr ardal. Roedd yn wych clywed adborth cadarnhaol gan breswylwyr ynghylch y gwaith da sy'n cael ei gyflawni gan y Swyddogion Cefnogi Cymunedol lleol. Mae'r Comisiynydd yn cynllunio cyfarfod gyda Chyngor Tref Doc Penfro yn y dyfodol agos i drafod rhai o'r materion a godwyd yn y cyfarfod.

Digwyddiadau

Cyfarfodydd Cyhoeddus (Yn agored i'r cyhoedd)

05.02.2018 - Ysgol Iau Mount Street, Aberhonddu am 7yh

08.03.2018 - Neuadd Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth am 7yh

24.04.2018 - Neuadd y Coroniad, Pumsaint am 7yh

07.06.2018 - Y Trallwng (Lleoliad i'w gadarnhau)

18.09.2018 - Caerfyrddin (Lleoliad i'w gadarnhau)

Diwrnodau Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Apwyntiadau wedi eu trefnu o flaen llaw yn unig - Cysylltwch â fy swyddfa i drefnu apwyntiad)

23.02.2018 - Llanfyllin

29.03.2018 - Tregaron

13.04.2018 - Y Gelli Gandryll

31.05.2018 - Arberth

29.06.2018 - Machynlleth

Digwyddiad Seiclo Elusennol y Comisiynydd

Ar y 30ain o Ebrill 2018 byddaf yn cychwyn ar daith seiclo o amgylch holl ardal yr heddlu, gan basio pob gorsaf heddlu, mewn 5 diwrnod. Mae'r daith er budd adfywio'r Ymddiriedolaeth o'r enw Safer Dyfed-Powys Diogelach, sef elusen gofrestrdedig sydd wedi ei hadfywio gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gyda'r bwriad o hyrwyddo cyngor atal trosedd a diogelu cymunedol, lleihau ofn trosedd a darparu addysg a gwybodaeth ynghylch diogelwch cymunedol ymhlith holl gymunedau Dyfed-Powys. Ymhenn amser, bydd yr elusen yn datblygu llawer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, a bydd yn cefnogi darparu diogelwch cymunedol yn ardal Dyfed-Powys. Bydd manylion pellach ynghylch y digwyddiad hwn ar gael dros yr ychydig wythnosau nesaf.



Manylion cyswllt y swyddfa:

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99,
Llangynnwr,
Caerfyrddin,
SA31 2PF

Ffôn: 01267 226440

E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

gwefan: www.dyfed-powys.pcc.police.uk

twitter: DPOPCC

facebook: [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)